PENWEDDIG

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau.penweddig@ceredigion.gov.uk

03.12.12

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Mae'r Adran Ddrama yn awyddus i ddisgyblion Bl.8 fynychu pantomeim Aladdin nos Fercher 9fed o Ionawr 2013 am 7.30yh yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Mae'r disgyblion wedi bod yn astudio arddull pantomeim y tymor hwn ac felly mi fyddai gweld cynhyrchiad byw o fudd iddynt. Bydd hefyd y cyfle iddynt gefnogi disgyblion y chweched Sam Ebenezer, Bethan Pearce a Joe Scannell fydd yn chwarae prif rannau yn y cynhyrchiad, gyda llawer o ddisgyblion eraill yr Ysgol yn cymryd rhan yn y corws.

Pris y tocyn fydd £10.

A fyddech gystal â llenwi'r nodyn isod mor fuan â phosib (siec yn daladwy i Ysgol Gyfun Penweddig).

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Catrin Fychan

Catrin Fychan
Ar ran yr Adran Ddrama

Rwyf/Nid wyf yn caniatáu i _____ ymweld â'r Theatr ac fe fyddaf yn trefnu cludiant yno a chludiant adref.

Llofnod Rhiant: _____

Enw Disgybl: _____

Rhif ffôn gartref: _____